## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Ryland Doyle | Adran Etholiadol: | Llansamlet |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | Ardaloedd Targed |
|---|---|

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Yn ystod 2013-14, cynhaliais gymorthfeydd misol a rhyngweithio gyda phreswylwyr trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar ffurf Twitter (@Ryland1) a Facebook (Councillor Ryland Doyle). Trwy'r rhain a dulliau cyfathrebu eraill megis e-bost a galwadau ffôn, rwyf wedi ymdrin â 144 o breswylwyr Llansamlet. Mae'r preswylwyr hyn wedi gofyn am gymorth gyda materion tai, materion ysgol, gan gwyno am amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus. Y ddau fater pennaf o ran nifer yr ymholiadau'n ymwneud â chais cynllunio Datblygiad Emily Fields a materion sy'n ymwneud â mabwysiadu ffyrdd a rheoli mannau agored cyhoeddus ar stad Heol Ynysallan.

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn Llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Gellifedw ac, yn ystod y flwyddyn, deuthum yn Is-gadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gellifedw. Roedd hyn yn cynnwys cefnogi'r ysgol trwy broses arolygiad ysgol a chafodd yr ysgol ei sgorio'n dda gan arolygwyr ESTYN. Yn ystod fy rôl fel llywodraethwr, euthum i dros 20 cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn yn ogystal â llawer o ymweliadau anffurfiol â'r ysgolion.

Roeddwn (ac rwyf o hyd) yn aelod o bwyllgor rheoli Canolfan Gymunedol Gellifedw ac euthum i 6 chyfarfod i gefnogi dyfodol y ganolfan gymunedol.

Euthum i gyfarfodydd PACT trwy gydol y ward yn ystod y flwyddyn.

Rwyf wedi bod yn mynd i gyfarfodydd Cymdeithas Gymunedol Gellifedw'n rheolaidd ac yn cefnogi ei gweithgareddau trwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys ei gwaith i gofrestru llwybrau cerdded fel hawliau tramwy cyhoeddus.

Rwyf wedi mynd i ffeiriau yn y Glais ac yn Eglwys Llansamlet a gweithgareddau amrywiol a drefnwyd gan y Tîm Cymunedau'n Gyntaf yn Llansamlet ar ôl lansiad y rhaglen yn y ward yn 2013.

Rwyf wedi mynd i sesiynau codi sbwriel yn y gymuned ym Mharc yr Helig, yr ardal o gwmpas CKs a'r man agored ar Ffordd Herbert Thomas. Defnyddiais rywfaint o lwfans yr amgylchedd i dalu am blannu blodau dôl gwyllt ym Mharc yr Helig.

Yn ystod 2013/14, euthum i gyfarfodydd cyhoeddus ac ateb cwestiynau ynghylch lleoliad ail safle teithwyr.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd cyrff y cyngor penodol

*Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 11 | / | 12 | 92 | % |
| Y Cabinet | 18 | / | 18 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Y cyngor | 15 | / | 15 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 7 | / | 8 | 88 | % |
| CYFFREDINOL | 52 | / | 56 | 93 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

## Adran 3 Rôl a chyfrifoldebau Cynghorydd

Aelod y Cabinet dros Ardaloedd Targed; mae hyn yn cynnwys bod yn gyfrifol am waith y cyngor i leihau tlodi ac eithrio cymdeithasol yn ardaloedd y ddinas â'r lefelau tlodi uchaf. Yr ardaloedd hyn yw wardiau Townhill, Penderi a rhannau o'r Castell gan gynnwys Brynmelin, Waunwen, Dyfaty a'r ardaloedd i'r gogledd i'r Stryd Fawr gan gynnwys Stryd Matthews a Fflatiau Stryd Croft. Mae wedi cynnwys gweithio gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill i gydlynu eu gwaith gyda'r cyngor. Mae'r gwaith rwyf wedi bod yn rhan ohono yn ystod 2013-2014 yn cynnwys -

Swyddog arweiniol y Cabinet ar Ganolfan Iechyd a Theuluoedd newydd gwerth £1.5 miliwn ym Mayhill

Swyddog arweiniol y Cabinet yn Abertawe am y rhaglen Cymunedau'n Gyntaf a Chydlyniant Cymunedol. Ynghylch y rolau hyn, cadeiriais y 5 Grŵp Llywio Clwstwr Cymunedau'n Gyntaf, Bwrdd Rhaglen Cymunedau'n Gyntaf y ddinas a'r Grwpiau Llywio a Sicrwydd Cydlyniant Cymunedol.

Swyddog arweiniol y Cabinet ar gyfer gwaith gydag ymddiriedolaethau datblygu.

Swyddog arweiniol y Cabinet ar gydlyniant cymunedol.

Ymddiriedolwr a enwyd y cyngor i fwrdd Undeb Credyd LASA.

Fel rhan o'm cyfrifoldebau fel aelod y Cabinet, rwyf wedi mynd i'r canlynol -

Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd Misol y Cabinet

Briffio'r Cabinet ar bynciau penodol

Cynhaliais gyfarfodydd wythnosol ag aelodau Uwch-dîm Rheoli'r cyngor, a chyfarfodydd wythnosol â'r penaethiaid gwasanaeth.

Euthum ar 3 ymweliad gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru i weld prosiectau mewn ardaloedd targed ac wedi cyfarfod â gweinidogion LlC ar achlysuron eraill i drafod materion portffolio.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi cymryd rhan wrth sefydlu Cyfeilion Parc Heol Las a Phwll Scott sy'n grŵp a arweinir gan breswylwyr i hyrwyddo datblygiad a defnydd Parc Heol Las ac i gadw hen adeiladau'r pwll ym Mhwll Scott, gan integreiddio'r ddau'n gyfleuster sydd o fudd i bobl leol.

Cynhwysir grwpiau chwaraeon lleol a'r gymdeithas gymunedol yn y pwyllgor a chynhelir ymgynghoriad cyhoeddus mawr i ddangos yr hyn mae'r gymuned leol am ei gael yn y parc.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Rwyf wedi bod i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

27/03/2014 - Deall Materion Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid
14/10/2013 - Cyn-benderfynu
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Roeddwn yn aelod o Weithrediaeth y Grŵp Llafur ac euthum i gyfarfodydd y grŵp a chyfarfodydd gweithredol y grŵp fel rhan o hyn yn 2013/14.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £31,900 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Date:** | 29 Mehefin 2014 |